Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

# Asesiad Anghenion Fferyllol

Ebrill 2021



This document is available in Welsh/
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board
Dyfodol Clinigol Clinical Futures

Cynnwys Tudalen




Pharmaceutical needs assessment 3



Gwasanaethau fferyllol 5



Ynglŷn â fferyllfeydd a meddygfeydd teulu fferyllol yng Ngwent 8



Ynglŷn â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 10



Blaenoriaethau iechyd a lles 11



Ymgysylltu â chleifion –Yr hyn a ddywedodd pobl 13



Yr hyn y credwn sydd ei angen arnom yn y dyfodol 15




Holiadur 16

# Asesiad o anghenion fferyllol



- Bob pum mlynedd mae'n rhaid i ni edrych ar wasanaethau fferyllol a rhoi presgripsiynau yn ein hardal.




- Asesiad o anghenion fferyllol yw’r enw ar hyn.



Rydym yn ystyried y canlynol:

- Pa wasanaethau fferyllol sydd gennym a ble y maen nhw;



- Pa wasanaethau fferyllol y gallai fod eu hangen arnom yn y dyfodol i fodloni anghenion iechyd y boblogaeth leol; a



- Pha fferyllfeydd neu feddygfeydd fferyllol newydd sydd eu hangen arnom.

**Beth ‘dych chi’n ei feddwl?**



- Rydym am wybod eich barn am y cynlluniau hyn.



- Darllenwch drwy'r ddogfen hon ac yna rhowch eich barn i ni drwy ateb y cwestiynau ar dudalen 19.




- Mae angen i ni wybod eich atebion erbyn dydd Sadwrn 31 Gorffennaf 2021.

# Gwasanaethau fferyllol

Mae'r rhain yn wasanaethau rydych chi'n eu defnyddio mewn fferyllfa neu weithiau yn eich meddygfa os ydych chi'n byw yn Sir Fynwy.



Dyma’r gwasanaethau y mae eich fferyllfa leol yn eu darparu:



- Rhoi meddyginiaethau i chi y mae eich meddyg yn credu y mae eu hangen arnoch.



- Gwerthu meddyginiaethau i chi.



- Rhoi cyngor i chi ar sut i gadw'n iach




- Cael gwared ar hen feddyginiaethau.



- Eich helpu i fynd i'r gwasanaeth iechyd sy’n iawn i chi.



- Eich helpu gyda chyngor a meddyginiaethau i ddelio â salwch cyffredin, nid salwch difrifol iawn, fel peswch, annwyd, clustiau tost a bola tost.

**Mae rhai fferyllfeydd hefyd yn darparu gwasanaethau eraill i bobl:**



- Help gyda dulliau atal cenhedlu brys.



- Helpu pobl sy'n gaeth i gyffuriau.



- Eich helpu i roi’r gorau i ysmygu



- Rhoi pigiad ffliw i chi.




- Rhoi cyngor am ddim i chi ar afiechydon cyffredin ynghyd â thriniaeth ar eu cyfer.



- Siarad â chi am yr holl feddyginiaethau rydych chi'n eu cymryd ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych amdanyn nhw neu pam mae'n rhaid i chi eu cymryd.

**Gwasanaethau meddygon**



- Os ydych yn byw yn Sir Fynwy efallai y cewch eich meddyginiaethau o’ch meddygfa ac nid o fferyllfa.

- Rydym yn edrych ar y gwasanaeth hwn hefyd.

# Fferyllfeydd a Meddygfeydd Teulu Fferyllol yng Ngwent




- Mae 131 o fferyllfeydd yng Ngwent a 13 o feddygfeydd sy'n rhoi meddyginiaethau i rai o'u cleifion.




**Fferyllfeydd yng Ngwent**:

- Rhaid i fferyllfeydd fod ar agor am 40 awr bob wythnos. Weithiau maen nhw ar agor am fwy o amser.
- Gallwch fynd iddynt yn ystod yr wythnos.
- Gallwch hefyd fynd i rai fferyllfeydd ar fore Sadwrn
- Mae rhai fferyllfeydd ar agor drwy'r dydd ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.



- Os ydych am wybod pryd mae fferyllfa ar agor gallwch gael gwybod ar ein gwefan: https://bipab.gig.cymru/



- Os ydych yn byw yn Sir Fynwy ac yn cael eich meddyginiaeth gan eich meddyg, dim ond yn ystod yr wythnos y gallwch fynd i’r feddygfa.



- Mae fferyllfeydd yn rhoi llawer o feddyginiaethau i bobl. Y llynedd, rhoesant dros 16 miliwn o feddyginiaethau i bobl.



- Mae gan bob un o'r fferyllfeydd ystafell lle gallwch siarad â'r fferyllydd yn breifat.



- Gall y rhan fwyaf o bobl yrru neu gerdded i fferyllfa o fewn 20 munud.



- Ond os ydych yn byw yng nghefn gwlad efallai y bydd yn cymryd mwy nag 20 munud i chi.



- Bydd 105 o fferyllfeydd yn dod â'ch meddyginiaethau i'ch cartref.

# Ynglŷn â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan




- Rydym yn gwasanaethu Cyngor Blaenau Gwent, Cyngor Caerffili, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Casnewydd a Chyngor Torfaen ac rydym yn sicrhau, os ydych yn sâl, y gallwch weld rhywun i'ch helpu i wella. Gallai hyn fod yn feddyg, yn fferyllydd, yn ddeintydd neu’n rhywun yn yr ysbyty.



- Mae tua 595,000 o bobl yn byw yn ein hardal



- Mae tua un o bob pump o bobl dros 64 oed.



- Mae bron pawb sy'n byw yn ein hardal yn wyn ac yn Brydeinig. Dim ond nifer fach iawn sy'n dweud nad ydyn nhw'n wyn.



- Ar gyfartaledd rydym yn disgwyl i ddynion fyw nes y byddant yn 78 oed a menywod yn 82 oed.



- Mae bron pawb yn ein hardal yn siarad Cymraeg.

- Mae gan un o bob saith o bobl sgiliau yn y Gymraeg.

# Ffyrdd o Fyw



- Mae tua un o bob pump o bobl yn ysmygu.



- Mae tua un o bob pum oedolyn yn yfed mwy nag y dylent bob wythnos.



- Mae tua un o bob dau oedolyn dros bwysau neu'n ordew. Mae hyn lawer gwaeth na chyfartaledd Cymru.



- Mae un o bob pedwar o bobl yn profi problemau neu salwch iechyd meddwl ar ryw adeg yn eu bywyd.

## Salwch



- Mae nifer y bobl sydd â diabetes tua'r un faint â chyfartaledd Cymru.



- Mae pobl yn ein hardal yn marw o broblemau gyda’r galon, canser neu broblemau gyda’r ysgyfaint.

# Yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym am ein fferyllfeydd?

Gofynnom i bobl am eu barn am ein fferyllfeydd. Dywedon nhw wrthym:




- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio fferyllfa




- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ymweld â fferyllfa unwaith y mis.



- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn mynd i fferyllfa i gasglu eu meddyginiaethau, neu i'w casglu ar ran rhywun arall.



- Mae pobl hefyd yn mynd i fferyllfa i brynu meddyginiaethau neu i ofyn am gyngor.

- Roedd y rhan fwyaf o bobl yn teimlo eu bod yn gallu siarad â'u fferyllydd yn breifat.




- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio'r un fferyllfa am ei bod yn agos at eu cartref neu at eu meddygfa.



- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio car i gyrraedd fferyllfa.

- Dywedodd y bobl hynny sy’n ei chael yn anodd cyrraedd fferyllfa mai diffyg mannau parcio yw’r rheswm dros hynny.



- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod am y gwasanaethau eraill y mae fferyllfeydd yn eu cynnig, fel brechiadau rhag y ffliw.

# Yr hyn rydyn ni'n meddwl sydd ei angen arnom

Hoffem i fwy o fferyllfeydd helpu pobl:



- sydd am roi'r gorau i ysmygu,



- sydd eisiau dulliau atal cenhedlu brys, ac



- sydd am gael pigiad ffliw.



- Hoffem gael fferyllfeydd newydd lle bydd llawer o dai newydd yn cael eu hadeiladu yng Nghasnewydd a Mamheilad ger Pont-y-pŵl.




# Beth 'dych chi'n ei feddwl?






C1. Ydy'r rheswm dros gynnal yr asesiad o anghenion fferyllol wedi'i esbonio?

Ticiwch un blwch:





Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod ☐





C2. Ydych chi'n credu bod yr adroddiad yn iawn ynghylch y gwasanaethau fferyllol yn eich ardal chi?

Ticiwch un blwch:





Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod ☐

Os nad ydych, pa wasanaethau yr hoffech eu cael?







C3. Ydych chi’n credu bod yr adroddiad yn iawn ynghylch y gwasanaethau fferyllol sydd gennym ar hyn o bryd?

Ticiwch un blwch:



Ydw



Nac ydw



Ddim yn gwybod

Os nad ydych, nodwch y gwasanaethau:







C4. Ydych chi’n credu bod yr adroddiad yn iawn ynghylch y gwasanaethau fferyllol y mae angen eu hangen yn y dyfodol?

Ticiwch un blwch:



Ydw



Nac ydw



Ddim yn gwybod

Os nad ydych, nodwch pam:







C5. Ydych chi'n credu bod yr adroddiad yn adlewyrchu anghenion iechyd poblogaeth eich ardal?

Ticiwch flwch:



Ydw



Nac ydw



Ddim yn gwybod

Os nad ydych, nodwch pam a pha ardal y mae eich sylw yn cyfeirio ati:



# Amdanoch chi

C6. Ydych chi'n ateb y cwestiynau hyn fel......



Ticiwch un blwch



Aelod o'r cyhoedd?

Gofalwr?

Fferyllydd?

Meddyg Teulu?

Gweithiwr iechyd proffesiynol?

Cynghorydd?

Gweithiwr y Cyngor?

Gweithiwr o sefydliad arall?

Nodwch enw'r sefydliad:

# Adran Monitro Cydraddoldeb

**Dim ond os ydych yn aelod o'r cyhoedd neu'n glaf y dylech gwblhau'r adran hon.**

**Peidiwch â** chwblhau'r adran hon os ydych yn ymateb ar ran fferyllfa gymunedol, contractwr dosbarthu cyfarpar, meddygfa neu feddygfa fferyllol neu unrhyw sefydliad arall.

Er mwyn monitro effeithiolrwydd ein Polisi a'n harferion Cydraddoldeb, a sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n deg i bawb ac yn rhydd o ragfarn, byddem yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad wrth roi, ar sail gwbl wirfoddol, y wybodaeth y gofynnir amdani isod. Mae'r wybodaeth yn gyfrinachol ac yn ddienw, a chaiff ei defnyddio at ddibenion monitro ystadegol yn unig ac i wella ein gwasanaethau. Caiff ei wahanu oddi wrth unrhyw ohebiaeth a dderbynnir gennych a chaiff ei dinistrio'n ddiogel ar ôl i ni gasglu'r wybodaeth.





**C7. Beth yw eich dewis iaith?**

Ticiwch un blwch:

Cymraeg ☐

Saesneg ☐

Mae’n well gennyf be idio â dweud

Arall:

Os arall,
nodwch:_________________



## C8. Faint yw eich oedran?



Ticiwch un blwch:

0-15 oed

16-24 oed

25-34 oed

35-44 oed

45-54 oed

55-64 oed

65-74 oed

75 oed a hŷn



## C9. Ydych chi’n....



Ticiwch un blwch:

Wryw

Benyw

Arall

Mae’n well gennyf beidio â dweud

**C10. Beth yw eich grŵp ethnig?**



Ticiwch un blwch:



**Gwyn:**

Prydeinig

Seisnig

Cymreig

Gogledd Iwerddon

Albanaidd

Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig

Arall



**Cymysg/Prydeinig Cymysg:**

Gwyn a Du Caribïaidd

Gwyn a Du Affricanaidd

Gwyn ac Asiaidd

Unrhyw gefndir cymysg arall



**Asiaidd/Asiaidd Prydeinig:**

Indiaidd

Bangladesh aidd

Pacistanaid d

Tsieineaidd

Asiaidd arall



**Du/Du Prydeinig:**

Caribïaidd

Affrica naidd

Unrhyw gefndir Du arall



**Unrhyw Grŵp Ethnig arall:**

Arabaidd

Mae’n well gennyf beidio â dweud

Arall (nodwch os dymunwch)

____________________



**C11. Ydych chi’n…**



Ticiwch un blwch:

Heterorywiol - yn cael eich denu at bobl o ryw gwahanol i chi

Deurywiol - yn cael eich denu at ddynion a menywod

Menyw Hoyw neu Lesbiad - menywod sy’n cael eu denu at fenywod

Dyn Hoyw - dynion sy'n cael eu denu at ddynion

Arall (nodwch os dymunwch)

____________________

Mae’n well gennyf beidio â dweud



**C12. Ydych chi….**

Ticiwch un blwch:



Ydych chi’n briod neu
mewn partneriaeth sifil o’r un rhyw?

Sengl

Arall

Mae’n well gennyf beidio â dweud



**C13. Beth yw eich crefydd neu gred?**



Ticiwch un blwch:

Cristion | Dim crefydd
Bwdhaidd | Mwslim
Iddew | Hindŵ
Sîc | Anffyddiwr
Arall | Mae’n well gennyf beidio â dweud

Os arall, nodwch____________________



**C14. Oes anabledd gennych?**



Ticiwch un blwch:

Oes

Nac oes

Mae’n well
gennyf beidio â dweud





**C15. Ydy eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a neilltuwyd ar eich genedigaeth?**

Ticiwch un blwch:

Ydy ☐ Nac ydy ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud ☐





**C16. Ydych chi'n gofalu am rywun sydd â…**

Ticiwch un blwch:

Salwch/anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor; neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint ☐

Mae'n well gennyf beidio â dweud ☐

Nac ydw ☐

Wrth gyflwyno'r ffurflen hon, rwyf drwy hyn yn cydnabod ac yn rhoi caniatâd penodol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chwmni Buddiannau Cymunedol Comisiynu Gofal Sylfaenol ddefnyddio fy nata personol, gan gynnwys yr holl ddata cydraddoldeb sensitif (e.e. cyfeiriadedd rhywiol/ailbennu rhywedd) a roddir o’m gwirfodd gennyf at ddibenion monitro ac adrodd yn gyfreithlon er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb.

## Diolch




**Diolch am gwblhau’r arolwg hwn.**

Dywelwch y holiadur wedi’i gwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2021 i ABB.PharmacyServices@wales.nhs.uk. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ffoniwch 01495 241260.